

EIN BLWYDDYN WYLLT 2025/26

Adroddiad effaith



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust





Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust



northwaleswildlifetrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llys Garth, Ffordd Garth
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

01248 351541

info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Rhif Cofrestru'r Elusen 230772



Cynnwys

- 3** Ein blwyddyn mewn niferoedd
- 4** Croeso
- 5** Dod â Natur yn Ôl
- 6** Bydd natur mewn adferiad
- 10** Gweithredu ystyrlon
- 12** Atebion seiliedig ar natur
- 14** Adolygiad ariannol
- 15** Edrych ymlaen
- 16** Ein Partneriaid Naturiol
- 17** Rhoddion mewn Ewyllysiau

Ein blwyddyn mewn niferoedd



10,000+
o aelodau



Ymgysylltu â **93** o ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid, gan gyrraedd **3,576** o blant a phobl ifanc



1,216 o
wirfoddolwyr yn rhoi
42,362 o oriau
o'u hamser



66 o weithwyr
cyfwerth ag amser
llawn



75 o berchnogion tir
wedi cael cyngor am eu
daliadau tir eu hunain,
sy'n cyfateb i bron i
867 hectar o dir



200 o ddigwyddiadau
allgymorth ac ymweliadau
safle wedi'u trefnu gan
staff a gwirfoddolwyr, gan
gyrraedd **7,292**
o bobl



18,871
o danysgrifwyr i'n
e-gylchlythyr



959 hectarau o
dir ar draws **36**
o safleoedd wedi
cael eu perchenogi
a'u rheoli ar gyfer
pobl a bywyd gwyllt

Croeso

Mae adferiad byd natur yn gofyn am amser, partneriaeth a dyfalbarhad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i ehangu ein gwaith ledled Gogledd Cymru, gan adfer cynefinoedd, cefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i fyd natur, adfywio ein moroedd ac ysbrydoli mwy o bobl i gymryd camau dros fywyd gwyllt. Er bod yr heriau sy'n wynebu byd natur yn parhau i fod yn sylweddol, mae'r cyflawniadau eleni yn dangos beth y mae posib ei gyflawni pan ddaw cymunedau, gwirfoddolwyr, ffermwyr, partneriaid a chefnogwyr at ei gilydd gyda nod cyffredin.

O ddychweliad y môr-wenoliaid i Gemlyn i nifer mwy nag erioed o oriau gwirfoddoli ac arweinyddiaeth gynyddol ymhlith pobl ifanc, mae'r adroddiad hwn yn dathlu'r cynnydd rydym yn ei wneud gyda'n gilydd a'r gwahaniaeth mae eich cefnogaeth chi'n helpu i'w greu bob dydd.

Fel Cadeirydd, hoffwn gydnabod cyfraniad eithriadol Frances Cattanach, a roddodd y gorau i fod yn Brif Weithredwr ym mis Ebrill 2026 ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ymroddedig i'r Ymddiriedolaeth ac i adfer byd natur yng Ngogledd Cymru. Ar ran y Bwrdd, diolch i chi, Frances, am eich ymrwymiad, eich arweinyddiaeth a'ch effaith barhaol.

Ar yr un pryd, rwy'n falch iawn o groesawu Lindsay Thomas fel ein Prif Weithredwr newydd. Mae Lindsay yn ymuno â'r Ymddiriedolaeth ar amser cyffrous, gan ddod ag egni ac uchelgais newydd wrth i ni barhau â'n siwrnai tuag at ddyfodol gwylltach a gwydnach. Diolch i chi am fod yn rhan o'r siwrnai hon.



Howard Davies
Cadeirydd



Dod â Natur yn Ôl

Ein **gweledigaeth** yw byd naturiol ffyniannus, lle mae bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl yn cael eu hysbrydoli a'u grymuso i gymryd camau dros natur.

Ein **pwrpas** ni yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i gymryd camau dros natur, a chreu cymdeithas lle mae natur yn bwysig.

Mae ein **strategaeth** a'i **thri nod** yn amlinellu beth rydym yn ei gredu sydd angen digwydd erbyn 2030 wrth geisio cyflawni ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer adfer byd natur.



NOD 1

Mae byd natur yng Ngogledd Cymru yn adfer, gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tirweddau a morweddau gwylltach lle mae pobl a byd natur yn ffynnu.



NOD 2

Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn cymryd camau dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at well penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd.



NOD 3

Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

NOD 1

Byd natur mewn adferiad

Er mwyn creu rhwydwaith ecolegol cydlynol a gwydn, mae ymchwilwyr, cadwraethwyr a llunwyr polisïau fel ei gilydd yn cydnabod bod angen mwy o le i fyd natur, a lle sy'n fwy, yn well ac yn fwy cysylltiedig. Yng Nghymru, rydym wedi mynd gam ymhellach ac yn cydnabod yn benodol y cysylltiad agos rhwng yr amgylchedd, pobl, diwylliant a lles yn ein fframwaith statudol. Mae hyn yn gosod ein targedau amgylcheddol fel elfen sylfaenol i bobl yn ogystal â byd natur.

Ein nod ni yw gweld o leiaf 30% o'r tir a'r ardaloedd morol yn cael eu gwarchod, eu cysylltu a'u rheoli'n gadarnhaol er budd byd natur.

NATUR MEWN FFIGURAU



Cefnogwyd 22 o arbedion tir drwy Galwad, ein gwasanaeth cyngori ar reoli tir



Gosodwyd 125 o focsys nythu ar gyfer gwenoliaid duon yn eu lle ar draws cymunedau, ysgolion a busnesau yn Wrecsam



Cyfrannwyd mwy na 420 o oriau gwirfoddoli at waith monitro Shoresearch



Cofnodwyd 2,400 o barau o fôr-wenoliaid pigddu yng Ngwarchodfa Natur Cemlyn

AFANC: RUSSELL SAVORY

MOR-WENOL: BIGDDU: HENRY COOK





GWYRTHEG BELTED GALLOWAY:
PASTURE FOR LIFE



Cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir

Cefnogodd Galwad, ein gwasanaeth cynghori ar reoli tir, 22 o berchnogion tir ledled Gogledd Cymru ac mae bellach wedi'i achredu i ddarparu cyngor Cyswllt Ffermio a hyfforddiant Lantra, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC). Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Galwad i gyflawni prosiect Ffermydd Gwydn Alun, gan helpu ffermwyr i baratoi ar gyfer y CFfC drwy adfer gwrychoedd, plannu coed, creu pyllau dŵr, parthau clustogi a rheoli llifogydd yn naturiol.

Mae darparu teithiau astudio a chyfleoedd hyfforddi eraill, gan gynnwys prosiect cyflwr pridd, yn hyrwyddo dulliau ymarferol o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r rhain yn cryfhau gwydnwch ffermydd, yn gwella bioamrywiaeth ac yn cefnogi incwm ffermio cynaliadwy.

Dod ag afancod yn ôl

Mae Prosiect Afancod Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at adfer afancod i'r gwyllt yng Nghymru drwy ei waith yn helpu i sicrhau bod y llywodraeth yn cydnabod afancod fel rhywogaeth frodorol sydd wedi'i gwarchod yn gyfreithiol.

Gyda chais am drwydded wedi'i gyflwyno ar gyfer dalgylch Afon Dyfi, mae'r tîm wedi parhau i feithrin cefnogaeth leol - gan gynyddu capasiti gwirfoddolwyr, ymgysylltu â 79 o ffermwyr, ymgysylltu'n uniongyrchol â mwy na 500 o bobl drwy ddigwyddiadau ac addysg, ac ehangu partneriaethau ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn, yn ogystal â chydweithredu ar draws ffiniau, wedi helpu i osod y prosiect fel grym blaenllaw ym maes ailgyflwyno afancod.



Ein gwarchodfeydd natur

Mae ein gwarchodfeydd natur, a Bryn Ifan, yn parhau i fod yn ganolog i'n hymdrechion i adfer byd natur ar draws Gogledd Cymru.

- Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau bod pob gwarchodfa o dan reolaeth adfer effeithiol erbyn 2030, gyda chefnogaeth partneriaethau gyda ffermwyr, buddsoddi mewn seilwaith ac ymroddiad gwirfoddolwyr.
- Derbyniodd gwirfoddolwyr hyfforddiant arbenigol a chefnogi ystod eang o waith cadwraeth ymarferol, gan gynnwys tocio coetiroedd, teneuo a chynyddu gwaith diogelwch coed mewn ymateb i glefyd y coed ynn a difrod stormydd.
- Yn Old Pulford Brook Meadows, mae gwaith partneriaeth yn helpu i fynd i'r afael â heriau hirsefydlog drwy wella gwydnwch rhag llifogydd ac adfer systemau rheoli dŵr.
- Yng Nghaeau Tan y Bwlch, gwelwyd cynnydd yn nifer y tegeiriau llydanwyrdd, a chafodd rheolaeth well ar y borfa yno ei chefnogi drwy brosiect Glaswelltiroedd Gwydn Plantlife.
- Yng Nghors Goch, wrth gyfrif crwynllys y gors, gwelwyd bod mwy nag erioed yno, sy'n adlewyrchu rheolaeth lwyddiannus ar bori ac amodau ffafriol, ochr yn ochr â gwaith wedi'i dargedu i gefnogi cynefinoedd arbenigol ar gyfer rhawn yr ebol.
- Yng Nghemlyn, dychwelodd môr-wenoliaid gwridog i fagu ar y safle am y tro cyntaf ers 31 o flynyddoedd, gyda dau bâr yn nythu.
- Ar draws ein gwarchodfeydd, mae gwaith monitro yn amlygu poblogaethau cadarn o rywogaethau blaenoriaeth.

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i dracio llwyddiant nythu'r gwybedog brith ac mae arolygon yn cadarnhau niferoedd iach o ymlusgiaid ac amffibiaid yn Chwarel y Mwynglawdd a Gors Maen Llwyd, ac mae'r ymdrech barhaus wedi bod o fudd i'r rugiar ddu yn y lleoliadau hyn hefyd.

- Aethom ati i wella mynediad a phrofiad ymwelwyr drwy welliannau i lwybrau, deunydd gwybodaeth newydd ac ailgysylltu Cors y Wlad ym Mryn Ifan â'r rhwydwaith lleol o lwybrau.
- Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, adferwyd yr enw hanesyddol Llyn Celanedd ar gyfer y warchodfa natur oedd yn arfer cael ei hadnabod fel Spinnies Aberogwen.

Cefnogi adferiad byd natur yn yr amgylchedd morol

Fel partner allweddol yng **Nghynghrair Llythrennedd y Môr Cymru**, fe wnaethom barhau i weithio gyda mwy na 60 o bartneriaid ledled Cymru i gefnogi perthynas gynaliadwy â'n harfordiroedd a'n moroedd.

Cafodd ein prosiect gwyddoniaeth y dinesydd morol blaenllaw, **Shoresearch**, flwyddyn eithriadol effeithiol, gan greu data rhynglanwol hanfodol am rywogaethau allweddol gan gynnwys wystrys y Môr Tawel, ewinedd moch, gwymon brown ymledol a rhywogaethau eraill o wymon ochr yn ochr â darganfyddiadau nodedig fel cregyn llong llosgfynydd. Cryfhaodd ein canfyddiadau y dystiolaeth ynghylch tueddiadau rhywogaethau, newid hinsawdd a rhywogaethau ymledol wrth gadarnhau gwydnwch cynefinoedd lleol. Gyda chefnogaeth amhrisiadwy

mwy na 420 o oriau gwirfoddol, mae'r prosiect yn parhau i greu cymuned fedrus a chynyddol, gan greu sylfaen dystiolaeth bwerus sy'n cael ei harwain gan ddinasyddion i dracio newid a gwarchod arfordir Gogledd Cymru. Bellach mae gennym ni'r momentwm i ragori ar y 15,000 o gofnodion yn 2026.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae **Consortium Natur Gogledd Cymru** yn cydlynu partneriaid i ddatblygu camau gweithredu unedig ar raddfa fawr i adfer byd natur ar draws tirweddau a fydd yn cefnogi defnydd tir cynaliadwy a chymunedau. Recriwtiwyd tîm ymroddedig i gyflwyno rhaglen 18 mis i fapio gweithgarwch, nodi cyfleoedd a datblygu dull cydlynol o adfer byd natur ar draws y rhanbarth. Mae'r cynnydd cynnar wedi bod yn gadarn, gydag ymgysylltu cyflym ar draws sefydliadau partner a sefydlu fframwaith cyflawni cyffredin. Mae gwaith ar droed hefyd i gryfhau cyllid rhanbarthol a chapasiti cyllid byd natur.

Parhaodd ein prosiect partneriaeth, **Corsydd Calon Môn**, i adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer adfer ar raddfa tirwedd, gan dreialu gweithgareddau sy'n cysylltu cymunedau, treftadaeth a rheoli tir, a chefnogi busnesau fferm.

Profodd gwaith mabwysiadu cynnar gyda ffermwyr newidiadau ymarferol er budd y corsydd a bywoliaeth, wedi'u hategu gan ddata a thystiolaeth a rennir. Cynyddodd y digwyddiadau cymunedol a'r ymgysylltu creadigol ymwybyddiaeth a chyfranogiad, ac mae partneriaethau newydd, ymchwil a chyllid Cyngor y Celfyddydau wedi siapio rhaglen gymell, wedi'i chynllunio ar y cyd, yn barod i sicrhau cyllid cyflawni ac effaith hirdymor.



PASTURE FOR LIFE



SHORE RESEARCH: YNCC LIN DUMKINS

NOD 2

Gweithredu ystyrion

Pobl yw'r allwedd i adferiad byd natur. Mae angen byd natur ar gymdeithas, ac eto rydym yn colli cysylltiad â'n hamgylchedd naturiol fwyfwy. Fel y dywedodd David Attenborough: 'No one will protect what they don't care about; and no one will care about what they have never experienced.'

Rydym yn gweithio i ddeall y rhwystrau sy'n bodoli rhwng unigolion, cymunedau a'r byd naturiol, gan geisio grymuso pobl o bob hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu i werthfawrogi a mwynhau bywyd gwylt, i siarad drosto ac i weithredu er ei les.

Rydym yn cysylltu pobl â llecynnau naturiol drwy wella ymgysylltu cymunedol a chreu llefydd gwylt diogel a chynhwysol yn agos at ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

NATUR MEWN FFIGURAU



Cyfrannwyd
8,834 o oriau
gwirfoddoli i
Brosiect Gweilch y
Pysgod y Brenig



Hyfforddwyd
12 o bobl ifanc
fel Hyrwyddwyr Aclub
Morwellt y Môr




Dadansoddwyd 22,000
o gofnodion
am blanhigion i
wella'r gwaith o fonitro
rhywogaethau estron
ymledol



335,000 o
ymweliadau â'r
wefan ac 1.5 miliwn o
argraffiadau ar gyfer ein
negeseuon ar gyfryngau
cymdeithasol

YNGO CHARLOTTE KEEN





Gweithio gyda'n gilydd dros fywyd gwyllt

Heb ein **gwirfoddolwyr**, yn ddiamau, ni fyddem yn gallu cyflawni ein gwaith ar draws y rhanbarth. Eleni, cynyddodd nifer yr oriau gwirfoddoli o fwy na 5,000 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol! Mae sawl ffurf i'n rhaglen wirfoddoli: o ladd rhedyn ac atgyweirio ffensys, i arolygu glannau a helpu yn ein siopau, i enwi dim ond rhai. Mae ein gwirfoddolwyr rheolaidd yn cael mynd ar gyrsiau hyfforddi achrededig ac anffurfiol, gan ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad gwerthfawr.

Parhaodd **Prosiect Gweilch y Pysgod y Brenig** i ffynnu. Cyfrannodd gwirfoddolwyr 8,834 o oriau ac enwyd y tîm yn 'Grŵp Gwirfoddol y Flwyddyn' Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Ehangwyd y gwaith o fonitro bywyd gwyllt o arolygon o rywogaethau i fentrau cynefinoedd ehangach. Drwy'r datblygiadau hyn, roedd modd i ni gyflwyno mwy o ddigwyddiadau ac ysbrydoli mwy o bobl nag erioed o'r blaen.

Dangosodd ein prosiect **Dihangwyr Gerddi** dull atal yn gyntaf o fynd i'r afael â phlanhigion ymledol drwy weithio gyda chymunedau, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid i leihau'r risg o ddianc o erddi. Denodd yr arddangosfa 'Tu Hwnt i'r Ffin' fwy nag 8,500 o ymwelwyr, a chefnogodd ein Pecyn Cymorth i Arddwyr newid ymddygiad a strategaeth ehangach ar gyfer planhigion ymledol.

Ein gwaith gyda phobl ifanc

Am y bedwaredd flwyddyn, gweithiodd ein rhaglen Hyrwyddwyr Achub Morwellt gyda 12 o bobl ifanc 11 i 16 oed mewn cadwraeth forol drwy hyfforddiant ymarferol, gwaith maes a datblygu arweinyddiaeth. O gasglu hadau i blannu, cafodd y cyfranogwyr gyfle i feithrin sgiliau snorkelu, ac ecoleg, monitro ac adfer morwellt. Derbyniodd dau fentor, Anna ac Oscar, gydnabyddiaeth genedlaethol drwy Wobr Marsh i Wirfoddolwyr Cadwraeth Forol Ifanc, a hefyd cafodd Anna gyfle i wneud cyflwyniad yn Symposiwm Morwellt y DU.

Ym mis Awst 2025, dyfarnwyd cyllid i ni gan Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur i dreialu rhaglen 'cysylltiad natur' newydd gyda phobl ifanc 11 i 16 oed, gan edrych ar sut gall profiad ym myd natur fod o fudd i iechyd a lles. Gan weithio gyda phobl mewn amrywiaeth o leoliadau yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd gogledd ddwyrain Cymru, mae gennym bellach swyddog datblygu ieuencid a rhaglen ymroddedig ar gyfer yr ardal hon.

Buom yn dathlu degawd o ddatblygiad ieuencid arloesol drwy roi lleisiau pobl ifanc wrth galon ein cylchgrawn aelodaeth yn ystod yr haf. Gweithredodd ein pobl ifanc fel golygyddion gwadd – gan ddangos ein hymrwymiad i unigolion sy'n creu newid ac i gadwraethwyr ein dyfodol.

NOD 3

Atebion sy'n seiliedig ar natur

Mae systemau naturiol iach yn hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus i fywyd gwyllt a phobl fel ei gilydd. Eto i gyd, mae newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a dirywiad yng nghyflwr ecosystemau'n lleihau gallu byd natur i gefnogi cymunedau gwydn ac amgylchedd iach.

Mewn partneriaeth ag eraill, rydym yn gweithio i adfer ecosystemau naturiol ar raddfa fawr ac i ddangos potensial atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer dal a storio carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd a galluogi byd natur i adfer yn y môr, gan hefyd gefnogi gwelliannau i iechyd corfforol a lles meddyliol pobl.

NATUR MEWN FFIGURAU



Ymwelodd **mwya na 150,000 o bobl** ag un o'n gwarchodfeydd natur – lle cynnau gwyllt sydd o fudd i fywyd gwyllt ac i iechyd a lles pobl fel ei gilydd



562 tCO₂e wedi'i allyrru gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar draws Cwmpass 1 - 3



Sicrhawyd mwya na £928,000 ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol ac adfer cynefinoedd



Galluogwyd **mwya na 140 o wirfoddolwyr** ar-lein i gefnogi ein gwaith o bell



GWARCHODFA NATUR COBBS Y SARNAU, YNGC



MORFEYDD HELLI, YNGC NIA HAF JONES

PROSIECT BANCOR GWYLLTACH: GARETH JONES



O adferiad i ddal a storio carbon

Mae gwaith adfer mawndir wedi digwydd yng Nghors y Sarnau, gan ganolbwyntio ar ardal o fawndir oedd â phlanhigfa o gonwydd arni'n flaenorol. Parhaodd y gwaith drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rheoli gweithredol ac arolygon hydrolegol i wella ein dealltwriaeth o amodau amgylcheddol. Mae'r wybodaeth hon yn helpu fel sail i benderfyniadau rheoli yn y dyfodol, gan gynnwys ailwlychu'r mawn ymhellach.

Carbon glas

Gwnaed cynnydd cadarn o ran datgloi a graddio cyllid ar gyfer carbon glas, gyda morwellt a morfa heli'n chwarae rhan flaenllaw yn hyn. Mae rhaglen estynedig Achub Cefnfor (hyd at 2027) yn parhau i gyflawni gwaith adfer effeithiol yng Nghaergybi a Phen Llŷn. Ar yr un pryd, mae cyllid newydd wedi rhoi hwb i raglen benodol ar gyfer morfeydd heli Gogledd Cymru, gan gyfuno mapio sylfaenol arloesol ag ymgysylltu â'r gymuned.

Monitro a lliniaru yng nghyswllt yr hinsawdd

Wrth wynebu goblygiadau newid hinsawdd ar draws ein gwarchodfeydd natur, gan gynnwys risg gynyddol o danau gwyllt a llifogydd, sefydlwyd adolygiad eang gennym, ac aethom ati i gymryd camau priodol fel rheoli lefelau dŵr yng Nghemlyn i warchod y boblogaeth o fôr-wenoliaid. Rydym hefyd wedi bod yn monitro amrywiaeth o rywogaethau, fel crwynllys y gors, y cor-rosyn rhuddfannog a'r gwybedog brith i

ddatgelu gwybodaeth bwysig am dueddiadau lleol.

Cael trefn ar ein tŷ ein hunain

Mae mynd i'r afael â newid hinsawdd wedi'i ymgorffori ar draws ein gwaith ni i adfer byd natur. Yn 2025/26, roedd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gyfrifol am 562.31 tCO₂e o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er bod yr allyriadau o'n heiddo ni wedi lleihau yn ystod y flwyddyn, cynyddodd allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio, deunyddiau a chyflenwadau, gan adlewyrchu lefelau uwch o weithgarwch. Mae gwella ein dealltwriaeth ni o effaith amgylcheddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Drwy gryfhau monitro ac adrodd, gallwn nodi cyfleoedd yn well i leihau allyriadau ar draws ein gweithrediadau a'n cadwyni cyflenwi, gan gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus a chynnydd tuag at ein huchelgais sero net.

Natur wrth galon y gymuned

Gyda thystiolaeth i brofi y gall byd natur ddarparu buddion sylweddol i les meddyliol a chorfforol y rhai sydd mewn angen mwyaf, rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau i gyfranogiad a sicrhau mynediad teg i gyfleoedd ar draws pob agwedd ar ein gwaith. Mae gwella hygyrchedd ffisegol, ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, cryfhau amlygrwydd a pherthnasedd diwylliannol ac adeiladu ein sgiliau cynhwysiant wedi chwarae rhan i gyd.

Adolygiad ariannol

Cafodd yr Ymddiriedolaeth flwyddyn ariannol well na'r disgwyl ac rydym yn parhau'n hynod ddiolchgar i'n haelodau a'n cefnogwyr am eu haelioni.

Roedd incwm y flwyddyn ar sail unigol yn £3.6m, cynnydd o £303k o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd mwy o roddion ac incwm o wasanaethau. Creodd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg net o £57k ac roedd hyn ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol ac wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw gan yr Ymddiriedolwyr.

Roedd y Fantolen yn cynnwys arian parod o £1.4m ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n ostyngiad o £287k, ond mae hyn yn parhau i fod yn ddigonol i fodloni gofynion cyfamad arian parod yr Ymddiriedolaeth am y dyfodol rhagweladwy.


Roedd trosiant y flwyddyn yn £4.8m, gan gynnwys yr is-gwmnïau Enfys Ecology a NWWT Trading, cynnydd o £0.7m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Profodd Enfys Ecology welliant sylweddol o ran perfformiad ariannol. Gwelwyd y trosiant yn mwy na dyblu i £1.04m o £613k a chynhyrchodd y busnes elw o £257k, swm oedd £200k yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r busnes mewn sefyllfa dda i barhau â'r twf hwn y flwyddyn nesaf. Cofnododd NWWT Trading gynnydd bach mewn trosiant i £129k ac elw o £11k.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddal ei thir mewn hinsawdd economaidd heriol, gan barhau'n wydn ac ymateb yn gadarnhaol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn dymuno cofnodi eu diolch diffuant i'r staff, y gwirfoddolwyr, yr aelodau a'r cefnogwyr, y mae eu hymrwymiad a'u haelioni parhaus yn sail i bopeth sydd wedi'i gyflawni.



Alex Lord
Trysorydd



(Mae'r ffigurau hyn wedi'u 'cyfuno' ac yn cynnwys y rhai ar gyfer Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Enfys Ecology a NWWT Trading.)

Edrych ymlaen: 2026-27

Mae tri nod cysylltiedig ein Strategaeth 2030, *Dod â Natur yn Ôl*, yn ein harwain wrth i ni gyflawni ein rôl leol hanfodol o fynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a natur. Rydym yn helpu byd natur i adfer drwy helpu pobl i gymryd camau ystyrlon i'w gefnogi, gan gynnwys mabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur i heriau cymdeithas.



NOD 1

Yn 2026-27, bydd ein gwaith i adfer byd natur yn cynnwys y canlynol:

- Defnyddio data **Shoresearch** fel sail i gamau cadwraeth a datblygu partneriaethau ymchwil newydd gyda Phrifysgol Bangor.
- Sicrhau cyllid cyflawni a datblygu'r gweithredu gyda rhaglen **Corsydd Môn**.
- Sefydlu **Bryn Ifan** ymhellach fel esiamp flaenllaw o ffermio adfywiol.

BRITHEG Y GORS: TONY POPE



NOD 2

Yn 2026-27, bydd ein hymdrechion i helpu pobl yng Ngogledd Cymru i gymryd camau ystyrlon dros fydd natur yn cynnwys y canlynol:

- Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc drwy sicrhau cefnogaeth hirdymor ar gyfer ein gwaith **Sefyll dros Natur**.
- Ehangu'r ymgysylltu gwyddoniaeth y dinesydd drwy adeiladu ar lwyddiant **Mae Natur yn Cyfrif**.
- Diogelu dyfodol ein rhaglen **Hyrwyddwyr Achub Morwellt a Mentora**.

NATUR YN CYFRIF: DILYS THOMPSON



NOD 3

Yn 2026-27, bydd ein gwaith i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur ym mhrosesau datrys problemau cymdeithas yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau cefnogaeth i fentrau sy'n rhoi adferiad byd natur wrth galon atebion ym meysydd iechyd, yr hinsawdd a systemau bwyd.
- Cyflymu'r cynnydd tuag at leihau ein hól troed carbon drwy ddatblygu a gweithredu ein strategaeth lleihau carbon ein hunain.
- Sicrhau buddsoddiad i ehangu'r gwaith o adfer mawndir yng Ngwarchodfa Natur Cors y Sarnau.

GWLITHYS: GUY EDWARDS 2020VISION



Ein Partneriaid Naturiol

Rydym yn falch o weithio dros fywyd gwyllt gyda busnesau ledled Gogledd Cymru.

Mae ein Partneriaid Naturiol yn ein helpu i weithio dros Ogledd Cymru wylltach – boed hynny drwy noddi ein prosiectau; creu cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr ar eu tir eu hunain; neu rannu eu harbenigedd am bwnc penodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dangos y gall bioamrywiaeth olygu busnes!



Cofiwch ni yn eich Ewyllys

Helpwch i ddiogelu bywyd gwyllt lleol a mannau gwyllt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.

Unwaith y byddwch wedi darparu ar gyfer eich anwyliaid, mae cofio Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn eich Ewyllys yn helpu i gadw eich atgofion o'n bywyd gwyllt yn fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae 22% o'n hincwm gwirfoddol yn deillio o roddion mewn Ewyllysiau, sy'n ein galluogi i barhau i amddiffyn y bywyd gwyllt a'r llefydd gwyllt yng Ngogledd Cymru.

Mae pob rhodd ym mhob Ewyllys, waeth pa mor fawr neu fach, yn gwneud gwahaniaeth.

Hoffech chi gael Ewyllys yn rhad ac am ddim? Rydym wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllysiau yn rhad ac am ddim – heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ewch i **northwaleswildlifetrust.org.uk/legacy** neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.





ELEANOR GRACE SMITH



YNGC



YNGC LIN CUMMINS

Diolch i'n cefnogwyr

Rydym yn eithriadol ddiolechgar i'n haelodau, y staff, gwirfoddolwyr, rhoddwyr, pobl sy'n gadael cymynroddion i ni, partneriaid, cyllidwyr* a buddsoddwyr am eu hymrwymiad i gefnogi adferiad byd natur. Mae eich haelioni, eich cefnogaeth a'ch ymroddiad parhaus yn hollbwysig wrth helpu i greu Gogledd Cymru wylltach er budd pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd.



**Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust**

*Cronfa Cynnydd a Gwydnwch Airbus; Cronfa Fferm Wynt y Brenig; Sefydliad Esmee Fairbairn; Ymddiriedolaeth Elusennol HDH Wills 1965; Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru; Ymddiriedolaeth Prudence; Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi drwy WCVA.